OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 1732 (Cy.169)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Cyflwynir y cyfnod sylfaen ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008, ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2009, ar gyfer trydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2010 ac ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2011. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn pennu cyfnod y cyfnod sylfaen ac yn rhoi effaith gyfreithiol i'r meysydd dysgu, sy'n gosod y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1732 (W.169)

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Foundation Stage) (Wales) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The foundation stage will be introduced for the first year of the foundation stage on 1 August 2008, for the second year of the foundation stage on 1 August 2009, for the third year of the foundation stage on 1 August 2010 and for the fourth year of the foundation stage on 1 August 2011. This Order also specifies the period of the foundation stage and gives legal effect to areas of learning, which set out the desirable outcomes and educational programmes.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1732 (Cy.169)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Gorffennaf 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *3 Gorffennaf 2008* |
| *Yn dod i rym* | *Yn unol ag erthygl 1(2)* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 102, adran 108(2) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), ac wedi gwneud y cyfryw drefniadau y maent yn eu hystyried yn briodol ar gyfer ymgynghori yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008.

(2) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) ar 1 Awst 2008 o ran disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen;

(b) ar 1 Awst 2009 o ran disgyblion yn ail flwyddyn y cyfnod sylfaen;

(c) ar 1 Awst 2010 o ran disgyblion yn nhrydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen; ac

(ch) ar 1 Awst 2011 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

(**1**) 2002 p.32.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1732 (W.169)

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Foundation Stage) (Wales) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *1 July 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *3 July 2008* |
| *Coming into force* | *In accordance with article 1(2)* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by section 102, section 108(2) and section 210 of the Education Act 2002(**1**) and now vested in them(**2**), and having made such arrangements for consultation as it appears appropriate in accordance with section 117 of the said Act make the following Order:

**Title, commencement, interpretation and application**

**1**.—(1) The title of this Order is the Education (National Curriculum) (Foundation Stage) (Wales) Order 2008.

(2) The provisions of this Order come into force—

(a) on 1 August 2008 in respect of pupils in the first year of the foundation stage;

(b) on 1 August 2009 in respect of pupils in the second year of the foundation stage;

(c) on 1 August 2010 in respect of pupils in the third year of the foundation stage; and

(d) on 1 August 2011 in respect of pupils in the fourth year of the foundation stage.

(3) In this Order—

(**1**) 2002 c.32.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales under these sections were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002; ac

ystyr "y ddogfen" ("*the document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2008 o dan yr enw "Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru"(**1**).

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y cyfnod sylfaen**

**2**.—(1) Y cyfnod sylfaen o ran disgybl yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r amser perthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff (2)) ac sy'n diweddu ar yr un amser â'r flwyddyn ysgol y bydd mwyafrif y disgyblion yn nosbarth y disgybl yn cyrraedd saith oed ynddi.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "yr amser perthnasol" ("*the relevant time*") yw—

(a) yn achos plentyn y darperir iddo addysg feithrin a ariennir cyn iddo gyrraedd tair oed, ei drydydd pen-blwydd;

(b) yn achos plentyn y darperir iddo addysg feithrin a ariennir ar ôl iddo gyrraedd yr oedran hwnnw, yr amser pan ddarperir yr addysg honno iddo gyntaf; ac

(c) yn achos plentyn na ddarperir iddo unrhyw addysg feithrin a ariennir, yr amser pan fydd yn cael gyntaf addysg gynradd nad yw'n addysg feithrin.

**Y meysydd dysgu, y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol**

**3**.—(1) Y darpariaethau sy'n ymwneud â meysydd dysgu, canlyniadau dymunol a rhaglenni addysgol a osodir yn y ddogfen yn effeithiol at ddibenion pennu'r meysydd dysgu, y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol ar gyfer y cyfnod sylfaen.

(2) Nid yw'r canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol sy'n ymwneud â'r maes dysgu a elwir Datblygu'r Gymraeg a osodir yn y ddogfen i'w cymhwyso i ddisgybl yn y cyfnod sylfaen os caiff y disgybl hwnnw ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Cymraeg.

(**1**) ISBN Rhif 9780750444293.

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002; and

"the document" ("*y ddogfen*") means the document published by the Welsh Ministers in January 2008 entitled "Foundation Phase Framework for Children's Learning for 3-7 year olds in Wales"(**1**).

(4) This Order applies in relation to Wales.

**The foundation stage**

**2**.—(1) The foundation stage in relation to a pupil is the period beginning with the relevant time (as defined by paragraph (2)) and ending at the same time as the school year in which the majority of pupils in his or her class attain the age of seven.

(2) In paragraph (1) "the relevant time" ("*yr amser perthnasol*") means —

(a) in the case of a child who is provided with funded nursery education before he or she attains the age of three, his or her third birthday;

(b) in the case of a child who is provided with funded nursery education after he or she attains that age, the time when he or she is first provided with such education; and

(c) in the case of a child who is not provided with any funded nursery education, the time when he or she first receives primary education other than nursery education.

**Areas of learning, desirable outcomes and educational programmes**

**3**.—(1) The provisions relating to areas of learning, desirable outcomes and educational programmes set out in the document have effect for the purpose of specifying the areas of learning, the desirable outcomes and educational programmes for the foundation stage.

(2) The desirable outcomes and educational programmes relating to the area of learning known as Welsh Language Development set out in the document are not to apply to a pupil in the foundation stage if that pupil is taught wholly or mainly through the medium of Welsh.

(**1**) ISBN No. 9780750444293.

*Jane Hutt*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers

1 Gorffennaf 2008

1 July 2008

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W343/07/08 ON